OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1244

## Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021

**10.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd ar 1 Medi 2022 ac sydd **[**[F1]ym mlwyddyn**]**10 yn ystod y flwyddyn ysgol 2022-2023.

(2) Oni bai bod y gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i'r plentyn a rhiant y plentyn yn ystod y flwyddyn ysgol 2022-2023.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn ergl. 10(1) wedi eu hamnewid (10.6.2022) yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 5 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 6) 2022 (O.S. 2022/663), **ergl. 3(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 10 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**I2** Ergl. 9 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021, Adran 10.